# Hanes Llafar: Canllaw i Ysgolion

## Beth yw Hanes Llafar?

Mae hanes o'n cwmpas ym mhobman. Meddyliwch am eich teulu a'ch cymuned. Mae digon o straeon yno i lenwi llyfrgell. HANES LLAFAR yw enw'r math yma o hanes.

Mae dogfennau a llyfrau yn aml yn canolbwyntio ar bobl a digwyddiadau enwog. Ond nid yw profiad a llais y mwyafrif yn cael ei gofnodi. Mae hanes llafur yn llenwi'r bylchau ac yn rhoi i ni hanes sy'n cynnwys pawb.

Diolch i dechnoleg ddigidol, gall unrhywun gasglu hanesion llafar a'u rhannu gydag eraill. Mae'n gyfle gwych i ddatblygu sgiliau digidol a chyfweld wrth ddysgu am hanes. Gall feithrin hyder pobl ifanc a magu parch rhwng cenedlaethau.

## Beth yw'r canllaw hanes llafar hwn?

Mae'r canllaw hwn yn seiliedig ar ganllaw ar-lein y Gymdeithas Hanes Llafar (OHS) i ysgolion. Mae'n cynnig cyngor ar sut i ddechrau project bach. Cafodd ei greu ar y cyd gan y Gymdeithas Hanes Llafar a Chasgliad y Werin Cymru.

Mae Casgliad y Werin Cymru (CyW) yn eich gwahodd i gyhoeddi hanesion llafar ar-lein. Gwefan yw CyW sy'n dathlu hanes, diwylliant a phobl Cymru. Mae creu cyfrif a chyhoeddi ar CyW yn hawdd, ac rydyn ni wedi creu canllaw gam wrth gam i chi.

Rhaid defnyddio technoleg ddigidol yn gyfrifol. Bydd y canllaw hwn yn eich helpu i ddeall y materion cyfreithiol a moesegol sy'n codi wrth gofnodi tystiolaeth pobl.

## Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

Camau Cynnydd 3, 4 a 5 - Hanes, Sgiliau Llythrennedd, Fframwaith Cymhwysedd Digidol (Dinasyddiaeth, Rhyngweithio a Chydweithio, Cynhyrchu).

Mae hanes llafar hefyd yn cyffwrdd ar nifer o bynciau eraill y cwricwlwm, yn dibynnu ar y pwnc a'r hyn y byddwch chi'n ei wneud gyda'r deunydd. Gall fod yn ffynhonnell gyfoethog o ysbrydoliaeth sy'n tanio diddordeb mewn nifer o bethau. Dilynwch y ddolen am ragor o wybodaeth am yr hyn y gall pobl ifanc ei ddysgu drwy gofnodi atgofion pobl hŷn.


Trwy garedigrwydd Tardebigge First School, Redditch

## Cynllunio’ch project

### *Beth fydd pwnc eich project?*

Dewiswch bwnc sy'n berthnasol i'ch gwersi, i faterion cyfoes, neu sy'n berthnasol i'r ysgol, y disgyblion neu'r ardal.

### *Beth yw'r nod?*

Beth yw maint a chyrhaeddiad y project? Ychydig o gyfweliadau, neu broject mwy yn cynnwys gwefan, celf neu berfformiad? Edrychwch am Ysbrydoliaeth.

### *Beth yw eich profiad a'ch adnoddau?*

Os taw dyma'r tro cyntaf i chi roi cynnig ar hanes llafar, siaradwch â rhywun profiadol. Oes gan staff arall neu athrawon TGCh wybodaeth, sgiliau neu offer defnyddiol? Cysylltwch ag ymgynghorydd o'r Gymdeithas Hanes Llafar neu siaradwch â'r Swyddfa Gofnodion/Archif/Amgueddfa leol. Fyddwch chi'n recordio sain neu fideo? Bydd angen offer recordio a meddalwedd golygu arnoch. Gweler yr adran Offer isod.

### *Pwy fyddwch chi'n eu cyfweld, a ble?*

Lle da i ddechrau chwilio am bobl i'w cyfweld yw holi cymuned yr ysgol - staff, disgyblion, perthnasau, llywodraethwyr, cysylltiadau cymunedol. Cofiwch y bydd y bobl i'w cyfweld yn aml yn hen ac yn methu teithio'n hawdd. Ble fyddwch chi'n cyfweld â nhw? Fydd yn rhaid cludo'r disgyblion i gynnal y cyfweliad? Dewiswch leoliad tawel. Gall recordio mewn cartref gofal neu fan cyhoeddus fod yn gymhleth a swnllyd.

### *Oes angen caniatâd i ddefnyddio'r recordiadau?*

Oes yw'r ateb syml. Dylech gael caniatâd ysgrifenedig gan y bobl sy'n cael eu cyfweld A'R cyfwelydd (eich disgyblion). Gweler yr adran **Hawliau, Moeseg a Chytundebau** isod.

### *Pa mor hir fydd y project?*

Llawer hirach na'r disgwyl yw'r ateb syml! Y drefn debygol fydd: ymchwil, hyfforddi, ymarfer cyfweld, cyfweld, ailwrando ac adolygu'r recordiad, golygu'r recordiad, rhannu'r deunydd.

### *Delweddau a gwrthrychau*

Beth am annog y bobl sy'n cael eu cyfweld i ddod â gwrthrychau perthnasol - offer, dillad, straeon papur newydd, dogfennau? Gallwch chi drafod y rhain yn y cyfweliad. Cofiwch dynnu ffotograffau o bob cam o'r project. Gallwch chi gyhoeddi'r cyfan ar CyW i greu casgliad amlgyfrwng deniadol.

### *Materion diogelwch ac amddiffyn plant*

Mae hwn yn fater difrifol, ond ni ddylai fod yn rhwystr i gyfweld. Dilynwch eich canllawiau amddiffyn plant presennol, ac edrychwch yn yr adran **Hawliau, Moeseg a Chytundebau** isod am arweiniad pellach.

### ***Beth fyddwch chi'n ei wneud gyda'r cyfweliadau yn y pen draw?***

Casgliad y Werin Cymru yw'r lle delfrydol i gyhoeddi eich recordiadau! Bydd eich project yn dod yn rhan o hanes digidol Cymru ac ar gael i bobl o bedwar ban byd. I gadw eich recordiadau gwreiddiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, cysylltwch ag archif neu amgueddfa.

### ***Fyddwch chi'n cynnal digwyddiad i gloi?***

Mae dod â phawb at ei gilydd i ddathlu'r wybodaeth a'r sgiliau mae pawb wedi'u dysgu yn ystod y project yn syniad da, ac yn llawer o hwyl i'r disgyblion!

## CyW neu Archif - beth yw'r gwahaniaeth?

Mae Casgliad y Werin Cymru yn blatfform digidol i chi rannu delweddau a straeon gydag eraill. Er mwyn cyrraedd cymaint o bobl â phosibl, rydyn ni'n defnyddio ffeiliau llai o faint fel y gall pobl eu hagor ar gyfrifiadur, llechen neu ffôn symudol. Er mwyn cyhoeddi sain a fideo ar CyW bydd yn rhaid trosi ffeiliau .WAV a .MOV i MP3 ac MP4 – fformat sydd â chydraniad da ond sy'n llai o faint.

Ond nid yw rhannu ar CyW yr un peth ag archifo. Mae archifau'n gyfrifol am gadw dogfennau a recordiadau at y dyfodol. Er mwyn gwneud hyn, rhaid i'r recordiad fod yn ei fformat gwreiddiol, heb ei gywasgu, fel ei fod o'r safon uchaf posib ac yn para. Mae archifwyr sain yn cynghori mai'r fformat gorau ar gyfer archifo sain yw .WAV.

Felly, os ydych chi am gadw eich cyfweliadau *sain* ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, recordiwch nhw ar format .WAV. Er mwyn i bawb gallu gwrnado ar y ffeiliau ar CyW, troswch nhw i .MP3. Mae archifo *fideo* yn fwy cymhleth. Mae gan y Sefydliad Hanes Llafar ragor o wybodaeth, neu siaradwch â'ch archif leol. Chwiliwch am eich archif leol yma.

## Offer

Defnyddiwch yr offer recordio gorau allwch chi ei brynu (neu fenthyg). Gofynnwch yn lleol mewn coleg neu brifysgol, archif, amgueddfa neu gymdeithas hanes.

Mae CyW yn cynnig benthyg offer am ddim am gyfnod penodol er mwyn i chi greu'r recordiadau gorau posibl ar gyfer eich project. Mae'r rhain yn cynnwys peiriannau recordio digidol o safon a meiciau lapel. Gellir benthyg offer a meddalwedd trawsgrifio hefyd. Cysylltwch â CyW am ragor o wybodaeth drwy e-bostio casgliadywerin@llgc.org.uk neu ffonio 01970 632500.

Mae nifer o ysgolion wedi cynnal projectau llwyddiannus gydag offer sydd wrth law e.e. llechi a ffonau symudol. Os ydych chi'n dewis gwneud hyn cofiwch:

- Mae ffeiliau fideo a .Wav yn fawr – bydd angen digon o le ar eich ffôn/llechen
- Batri isel - efallai bydd angen gwefru'ch dyfais wrth recordio
- Trafferth cael at gyfweliadau wedi recordio ar ffonau disgyblion er mwyn gwrando arnynt
- Trafferth uwchlwytho/trosglwyddo ffeiliau i gyfrifiadur
- Sain ddim yn ddigon uchel i chwarae i'r dosbarth – fydd angen darseinydd?

***Cyngor ar ddefnyddio llechi a ffonau symudol:***

- Lawrlwythwych ap recordio a'i ddefnyddio i reoli lefelau sain
- Gwnewch yn siŵr bod y batri'n llawn
- Gwnewch yn siŵr bod digon o gof yn rhydd
- Trowch y ffôn i flight mode a diffodd hysbysiadau
- Chwiliwch am y microffon (fel arfer ar y gwaelod wrth y pwynt gwefru) a gwneud yn siŵr bod dim llaw neu gasyn yn ei guddio
- Fideo – dylai'r ddyfais fod mor agos at y cyfwelydd â phosib
- Sain yn unig – pwyntiwch y meic at y cyfwelydd a'i ddal tua 15cm o'r geg
- Gwnewch brawf recordio ac ymarfer trosglwyddo ffeiliau
- Ystyriwch ddefnyddio meicroffon allanol arbennig ar gyfer ffôn symudol
- Ystyriwch ddefnyddio stand drithroed i gael llun llonydd

Am ragor o wybodaeth am ffilmio ar lechen neu ffôn symudol edrychwch ar Ganllaw offer yr OHS, neu dudalen y BBC, Ffilmio gyda ffôn symudol.

## Costau a Nawdd

Mae yn bosibl cwblhau project hanes llafar bach heb gyllid. Efallai bod gennych chi offer yn barod neu'n gallu benthyg offer (gweler yr adran **Offer** uchod). Ond gallai rhai costau godi yn ystod y project – teithio neu athrawon cyflenwi er enghraifft. Os oes yn rhaid prynu offer edrychwch ar ganllaw Costau a Nawdd yr OHS am gyngor.

## Hyfforddiant

Mae cyfweliadau yn greiddiol i hanes llafar, felly rhowch ddigon o amser i'r disgyblion ymarfer cyfweld a defnyddio'r offer recordio. Os oes gennych gyllideb, chwiliwch am hyfforddwr allanol ar dudalen hyfforddiant yr OHS.


Trwy garedigrwydd St John's CE School, Sparkhill

Mae **Cynllun Gwers Hanes Llafar** yr OHS ar gael yn rhan o'r adnodd hwn, ac yn edrych ar gynllunio, paratoi, sgiliau cyfweld sylfaenol, cwestiynau posibl ac ymarferion i helpu'r disgyblion ymarfer a magu hyder. Ewch i dudalen Adnodd Dysgu CyW i lawrlwytho'r canllaw.

Mae Casgliad y Werin Cymru yn gweithio yn y gymuned i helpu pobl o bob oed i gyhoeddi cynnwys ar ein gwefan. Cysylltwch â CyW am ragor o wybodaeth drwy e-bostio casgliadywerin@llgc.org.uk neu ffonio 01970 632500.

**Fideos a podlediadau defnyddiol**:

- BBC Teach Sut i gyfweld. CA2.
- BBC Hands on History Sut i gynnal cyfweliad hanes llafar eich hun. CA3 a 4.
- BBC Teach Ffilmio ein Cenhedlaeth Fwyaf. CA2.
- Cymdeithas Hanes Minnesota Canllawiau Hanes Llafar. CA3 a 4.

## Hawliau, Moeseg a Chytundebau

### *Gweithio gyda phlant*

Dilynwch ganllawiau gwarchod plant yr ysgol drwy gydol y project. Wrth gyfweld ei gilydd, gall plant ddatgelu pethau personol na fyddai'r teulu am ei rannu. Er enghraifft, yn ystod project am droseddu mewn dinas datgelodd nifer o blant fod ganddynt berthynas yn y carchar. Mae'n werth dweud wrth y plant fod hanes llafar yn bersonol iawn a bod dim rhaid ateb pob cwestiwn os nad ydyn nhw'n gyfforddus. Esboniwch fod yn rhaid trin eu profiadau ei gilydd â pharch, heb gario clecs amdanynt.

### *Cyfweld oedolion*

Gall oedolion hefyd ddweud pethau'n ddifeddwl. Mae cael eich annog i siarad yn ddi-dor am eich hun yn anarferol ac yn medru datgloi pob math o atgofion. Esboniwch yn glir bwrpas y project a sut fydd y recordiad yn cael ei ddefnyddio. Cyn dechrau recordio, atgoffwch nhw i rannu atgofion mae nhw'n hapus i'w rhannu'n gyhoeddus.


Project Pontio'r Cenedlaethau Windrush Abertawe

Gall pobl deimlo'n fregus iawn ar ôl rhannu atgofion personol. Mae'n syniad da tawelu'u meddyliau yn syth wedi'r cyfweliad, ac ysgrifennu gair o ddiolch (neu gael y plant i wneud) cyn gynted â phosib. Gall y llythyr eu hatgoffa sut y bydd y recordiad yn cael ei ddefnyddio. Mae'n bosibl na fydd rhai grwpiau o oedolion, e.e. yr henoed, yn llwyr ddeall yr hyn maen nhw'n cytuno ei wneud a sut yr ydych yn bwriadu rhannu'u recordiadau. Cymerwch amser i esbonio popeth yn ofalus, mewn iaith syml a chlir, er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn deall.

Bydd pobl yn aml yn siarad am eraill wrth gael eu cyfweld. Fel rhywun sy'n creu cynnwys digidol mae gennych gyfrifoldeb cyfreithiol a moesegol tuag at BAWB sy'n ymddangos yn y recordiad. Mae hyn yn rhan o Gyfraith Diogelu Data ac os byddwch chi'n torri'r rheolau hyn, gall eich ysgol gael dirwy. Nid yw'n dderbyniol cyhoeddi'r canlynol – ar wefan CyW nac unrhyw le arall:

- Unrhyw beth sydd heb ei gytuno gan y sawl sy'n cael ei gyfweld (gweler yr adran **Cael Caniatâd** isod)
- Unrhyw ran o recordiad sy'n datgelu gwybodaeth bersonol am rywun arall neu a all beri loes neu niwed iddynt

Felly, er mwyn bod yn ddiogel:

- Peidiwch â chyhoeddi recordiadau mawr heb eu golygu ar CyW
- Gwrandewch yn ofalus ar eich recordiadau cyn eu cyhoeddi. Oes sôn am bobl eraill? Ydyn nhw'n fyw ac yn gallu cael eu hadnabod? Allai'r cynnwys gael ei weld yn sarhaus neu ddifenwol (yn niweidiol i enw da rhywun)?
- Dewiswch ddarnau didrafferth i'w huwchlwytho i'r wefan
- Ysgrifennwch grynodebau o'ch recordiadau, gan gynnwys codau amser, er mwyn gweld yn hawdd lle mae'r adrannau anodd. Bydd hyn yn helpu archif os ydynt yn rhan o gadw eich recordiadau at y dyfodol

### *Cael Caniatâd*

Rhaid i chi gael caniatâd ysgrifenedig gan bawb y byddwch yn eu cyfweld, er mwyn gallu eu recordio a defnyddio'r recordiad. Cyn cyfweld, disgrifiwch eich project a beth rydych chi’n bwriadu ei wneud â'r recordiadau. Gofynnwch i'r sawl sy'n cael ei gyfweld lenwi **ffurflen cymryd rhan** i ddangos eu bod yn hapus i gymryd rhan. Ar ôl y cyfweliad, bydd y sawl sy'n cael ei gyfweld yn gwybod a yw'n hapus i rannu'r recordiad. Gofynnwch iddynt lofnodi **cytundeb recordio** i ddangos eu bod yn hapus i'r recordiad gael ei gyhoeddi. Yn rhan o'r cytundeb, gallwch ofyn iddynt roi'r hawlfraint i'ch ysgol neu broject. Yna, gallwch chi ddefnyddio'r cyfweliad ar gyfer gwefan, arddangosfa, cyhoeddiad, ap - neu ba bynnag gyfrwng a gaiff ei ddyfeisio yn y dyfodol! Os nad yw'r person am drosglwyddo'r hawlfraint, bydd rhaid i chi ofyn iddynt am ganiatâd bob tro y byddwch am ddefnyddio'r recordiad yn gyhoeddus.

Oeddech chi'n gwybod y dylech chi gael caniatâd ysgrifenedig gan rieni/warcheidwad eich disgyblion hefyd? Mae gan unrhyw ddisgybl sy'n ymddangos yn y recordiad hawl cyfreithiol ar sut all gael ei ddefnyddio hefyd. Os ydyn nhw i'w gweld ar ffilm, neu os yw eu llais i'w glywed yn gofyn cwestiwn, dylech gael caniatâd ysgrifenedig. Os yw'r person sy'n cael ei gyfweld wedi dod â ffotograffau ac yn barod i chi wneud copïau, dylech gael caniatâd ysgrifenedig am hynny hefyd.

Mae enghreifftiau o ffurflenni cytundeb syml ar ddiwedd y canllaw hwn:

- **Ffurflen Cymryd Rhan**
- **Cytundeb Recordio**

Rhaid i chi fel ysgol gadw'r ffurflenni cytundeb yn ddiogel, er mwyn dangos eich bod yn cydymffurfio â Chyfraith Diogelu Data a hawlfraint. Am ragor o wybodaeth fanwl am GDPR edrychwch ar Ganllawiau GDPR OHS a gwefan ICO.

### *Hawlfraint a CyW*

Os ydych chi'n bwriadu cyhoeddi eich recordiadau ar CyW, dywedwch wrth y bobl rydych chi'n eu cyfweld. Rhaid i chi hefyd ychwanegu'r wybodaeth ganlynol at eich ffurflenni:

***Casgliad y Werin Cymru.*** *Fel rhan o'r project hwn bydd eich cyfweliad yn cael ei gyhoeddi ar Gasgliad y Werin Cymru; gwefan dan nawdd Llywodraeth Cymru sy'n dathlu hanes, diwylliant a phobl Cymru. Caiff ei gyhoeddi dan drwydded Creative Archive a bydd ar gael i'r cyhoedd ei weld a'i ddefnyddio. Mae'r drwydded hon yn golygu y gall pobl gopïo ac ailddefnyddio'r recordiad at ddibenion addysgiadol ac anfasnachol. Rhaid i'r defnydd fod yn barchus (heb ddifenwi) ac ni ellir ei ddefnyddio i hyrwyddo/cefnogi. Rhaid iddynt gydnabod creawdwr y gwaith.*

Mae'r ystyriaethau moesegol a chyfreithiol yma'n bethau da i'w trafod gyda'r dosbarth ac yn cysylltu'n uniongyrchol â ffrwd Dinasyddiaeth y DCF. Beth am gymryd y cyfle i esbonio hawlfraint i'r dosbarth a chyflawni gofynion y DCF? Gall yr adnodd Hawlfraint - Byddwch yn ymwybodol o’ch hawliau digidol ar gyfer CA2 fod o gymorth.

## Cyhoeddi eich project ar CyW

Mae croeso cynnes i chi gyhoeddi eich project hanes llafar ar CyW. Gallwch chi gyhoeddi pob recordiad, disgrifiad o'r project ac unrhyw ffotograffau er mwyn creu casgliad amlgyfrwng deniadol. Y cam cyntaf yw creu cyfrif. Dilynwch ein Canllaw syml i ddysgu sut i gofrestru, uwchlwytho a chyhoeddi.

Mae'r sgiliau gaiff eu datblygu wrth greu cyfrif, ac uwchlwytho eitemau i CyW yn cyflawni nifer o ofynion y DCF. I weld sut all disgyblion gyhoeddi cynnwys a gwella eu sgiliau digidol, ewch i'n Blwch Offer i Athrawon. Mae CyW hefyd wedi creu cyfres o Adnoddau Dysgu o'r enw Canllaw Hwylus i Hawlfraint a Metadata. Beth am gymryd y cyfle i esbonio metadata i'r dosbarth? Gall yr Adnodd Dysgu Metadata ar gyfer CA2 eich helpu.

**CA2:** Gall y disgyblion gwblhau'r templed metadata sy'n rhan o'r Adnodd Dysgu Metadatai roi'r holl wybodaeth angenrheidiol er mwyn i'r dosbarth uwchlwytho cynnwys.

**CA3 a 4:** Gall y disgyblion uwchlwytho cynnwys eu hunain. Bydd yr adnoddau uchod yn esbonio sut.

Edrychwch ar rai o brojectau hanes llafar ysgolion eraill am ysbrydoliaeth:

- Ysgol Wirfoddol Eglwysig y Model - Disgrifiad o'r project a Chyfweliad
- Ysgol Maesydderwen – Ffilmiau byr wedi'u hanimeiddio
- Ysgol Gynradd Llanfyllin – Straeon fideo byrion
- Project Pontio'r Cenedlaethau Windrush, Abertawe - Astudiaeth achos

### *Cyngor craff ar gyhoeddi ar CyW:*

- **Gwnewch y pethau bychain.** Os yw'r cyfweliad yn hir, beth am ei olygu yn adrannau llai, ar bynciau gwahanol efallai? Ar ôl eu cyhoeddi gallwch chi ddod â'r adrannau gwahanol ynghyd mewn Casgliad (gweler y Canllawiau)
- **Pa fath o ffeiliau?** Rhaid lleihau'r ffeiliau .WAV gwreiddiol cyn eu cyhoeddi ar CyW. Dylai ffeiliau sain fod yn MP3 a fideo yn MP4 - sy'n rhoi'r cydraniad gorau gyda maint ffeil bach. Cofiwch gadw eich recordiadau gwreiddiol yn ddiogel! I gadw eich hanesion llafar mewn archif bydd angen y ffeiliau .WAV (gweler adran **CyW neu Archif – beth yw'r gwahaniaeth?**)
- **Trosi ffeiliau:** Mae meddalwedd am ddim ar-lein i drosi ffeiliau .WAV a .MOV i MP3 ac MP4. Mae'r OHS yn rhoi'r cyngor canlynol am olygu sain: *MAe Audacity am ddim ac yn ddigonol i olygu recordiad llafar. Mae Wavelab Elements neu Sound Forge Audio Studio 12 yn opsiynau rhad a dibynadwy eraill.* Mae meddalwedd golygu hefyd ar gael i'w fenthyg am ddim gan CyW (gweler yr adran **Offer** uchod)
- Y **maint ffeil mwyaf** ar gyfer CyW yw **100MB**. Cofiwch am yr uchafswm hwn wrth uwchlwytho, ond mae atebion os yw eich ffeil yn fwy. Gallwch chi gywasgu ffeil, neu...
- **Cyhoeddi dolen i YouTube ar CyW;** Cyhoeddi eich ffeiliau ar YouTube neu Sketchfab a gosod y ddolen yn nhudalen uwchlwytho CyW. Cofiwch ddweud wrth y bobl sy'n cael eu cyfweld ble fyddwch chi'n cyhoeddi'r cynnwys wrth ofyn am ganiatâd ysgrifenedig.
- **Gwybodaeth arall:** Mae gennym **bolisi 'tynnu i lawr'** felly os fydd unrhyw un a gyfwelwyd gennych yn anhapus â'r hyn a gyhoeddir, rhowch wybod i ni. Gallwn ddatgyhoeddi'r cynnwys tra'ch bo chi'n datrys unrhyw faterion.
- Rydyn ni'n hapus i helpu. Am gyngor ar gywasgu ffeiliau, benthyg offer a mwy, e-bostiwch casgliadywerin@llgc.org.uk neu ffoniwch 01970 632500.

*(NODWCH ENW EICH PROJECT A MANYLION CYSWLLT FEL PENNAWD)*

## Cytundeb Cymryd Rhan mewn Hanes Llafar

Rydych wedi eich gwahodd i gymryd rhan ym mhroject *(enw'r project)* am *(disgrifiad cryno o'r project)*.

Bydd disgyblion o'r ysgol hon yn recordio cyfweliad â chi. Os ydych chi'n cytuno, bydd yr ysgol yn defnyddio rhannau o'r cyfweliad yn yr ystafell ddosbarth a bydd darnau wedi'i golygu ar gael i'r cyhoedd trwy *(nodwch e.e. arddangosfa/gwefan/Casgliad y Werin Cymru/YouTube).*

Rydym yn awyddus i sicrhau fod y straeon y byddwch yn eu rhannu yn y cyfweliad ar glawr i genedlaethau'r dyfodol. O'r herwydd, hoffem storio'r recordiad cyfan yn barhaus yn (*enw'r llyfrgell neu archif)* er mwyn i'r cyhoedd allu gwrando arno. Byddwn ni ond yn gwneud hyn os ydych chi'n cytuno. Gallwch gyfyngu ar y ffordd y defnyddir y recordiad, os dyna'ch dymuniad, yn rhan o'r cytundeb recordio ar ôl y cyfweliad.

Ni fydd yr wybodaeth bersonol yn y ffurflen hon yn cael ei rhannu, oni bai bod yn rhaid i ni am resymau cyfreithiol. Gallwch ddarllen ein polisi preifatrwydd yma: (*cyfeiriad y wefan*). Gallwch ofyn am gopi o'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch ar unrhyw adeg.

---

Dyma Gytundeb rhwng *(enw'r ysgol/corff/project)* a chi, y sawl a gaiff ei gyfweld.

Eich enw: ..............................................................................

Eich cyfeiriad: ..........................................................................................................................

...................................................................................................................................

Rwy'n cytuno i gymryd rhan mewn cyfweliad ar gyfer *(enw'r ysgol/corff/project)* ac yn deall y bydd y cyfweliad ar gael i'r cyhoedd, oni bai y byddaf yn cyfyngu ar y ffordd y defnyddir y recordiad ar ôl y cyfweliad.

Llofnod: ...................................................................

Enw (priflythrennau): ...................................................................

Dyddiad: ...................................................................

***(NODWCH ENW EICH PROJECT A MANYLION CYSWLLT FEL PENNAWD)***

## Cytundeb Recordio Hanes Llafar

Mae recordio atgofion pobl yn rhan bwysig o ddeall hanes.

Diben y ffurflen hon yw gwneud yn siŵr y caiff y recordiad ei ddefnyddio gan ein (*ysgol/corff/project),* ei storio ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a'i rannu â'r cyhoedd mewn modd rydych chi'n hapus ag e.

Gellid defnyddio eich recordiad, neu rannau ohono, gan *(enw'r ysgol/corff/project)* ar gyfer: *(nodwch e.e. arddangosfa/gwefan/Casgliad y Werin Cymru/YouTube).*

Dyma gytundeb rhwng (*enw'r ysgol/corff/project)* a chi, y sawl a gaiff ei gyfweld.

Eich enw: ............................................................................

Eich cyfeiriad: ........................................................................................................................

..........................................................................................................................................

Mewn perthynas â'r cyfweliad gafodd ei recordio ar: ............................................................

**Datganiad:** Rydw i, y sawl a gafodd ei gyfweld, yn cadarnhau fy mod wedi cytuno i gymryd rhan yn y recordiad ac yn rhoi'r hawlfraint gyfan ar fy nghyfraniad i (*enw'r ysgol/corff/project*) ar gyfer (*nodwch e.e. arddangosfa/gwefan/Casgliad y Werin Cymru/YouTube*).

Os nad ydych chi am i (*enw'r ysgol/corff/project*) ddefnyddio a rhannu eich recordiad, neu os hoffech gyfyngu ar y defnydd, nodwch hynny isod os gwelwch yn dda:

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

Llofnod (y sawl a gafodd ei gyfweld): ..................................................................

Enw (priflythrennau): ..................................................................

Dyddiad: ..................................................................

Llofnod – ar ran *(enw'r ysgol/corff/project)*: ..................................................................

Enw (priflythrennau): ..................................................................

Dyddiad: ..................................................................